**Amodau a Thelerau Cystadleuaeth Cofrestru Cynnar ar gyfer y Ffair Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd 2024**

1- Yr hyrwyddwr yw: Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd, Prifysgol Bangor (Rhif elusen gofrestredig 1141565) y mae ei swyddfa yn Neuadd Rathbone, Prifysgol Bangor, Ffordd y Coleg, BANGOR, LL57 2DG.
2- Mae'r gystadleuaeth yn agored i fyfyrwyr Prifysgol Bangor yn unig.
3- Does dim ffi gystadlu ac does dim angen prynu dim byd i gystadlu.
4- Trwy gystadlu, mae pob ymgeisydd yn cytuno i ymrwymo i'r telerau a'r amodau hyn.
5- Dyma sut mae cystadlu - https://www.instagram.com/buemployability/, Facebook - https://www.facebook.com/BUEmployability, Twitter - https://twitter.com/BUemployability a gwefan https://www.bangor.ac.uk/cy/wythnos-fy-ngyrfa-graddedig
6- Dim ond un ymgais a dderbynnir gan bob person trwy'r ffurflen 'Cofrestru Cynnar - Ffair Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd 2024'. Caiff ceisiadau eraill gan yr un person, gael eu diystyru. . Gellir cael ail gofnod trwy gwblhau proffil myfyriwr ar CareerConnect.
7- Nodir y amser cau ar gyfer y cystadleuaeth yw 3pm ar ddydd Llun y 14 o Hydref. Ni chaniateir dim cynigion eraill i'r gystadleuaeth ar ôl yr amser hwnnw.
8- Ni dderbynnir cyfrifoldeb am unrhyw geisiadau sydd heb eu derbyn am unrhyw reswm.
9- Nodir rheolau'r gystadleuaeth a sut i gystadlu ar ein wefan (https://www.bangor.ac.uk/cy/wythnos-fy-ngyrfa-graddedig)
10- Nid yw'r hyrwyddwr yn gyfrifol os rhoddir manylion anghywir am y wobr i unrhyw ymgeisydd gan unrhyw drydydd parti sy'n gysylltiedig â'r gystadleuaeth hon.
11- Dyma'r wobr: Un Taleb Amazon gwerth £50 i bob enillydd (2 enillydd ar y mwyaf).
Mae'r wobr fel y nodir ar ein tudalen we – (https://www.bangor.ac.uk/cy/wythnos-fy-ngyrfa-graddedig). Ni chynigir arian parod neu ddewisiadau eraill fel gwobr. Nid yw'r wobr yn drosglwyddadwy. Mae'r gwobrau'n amodol ar fod ar gael ac rydym yn cadw'r hawl i gyfnewid unrhyw wobr gydag un arall o werth cyfatebol heb roi rhybudd.
12- Bydd yr enillwyr yn cael eu dewis ar hap gan feddalwedd, o blith yr holl geisiadau a dderbynnir ac a ddilysir gan yr Hyrwyddwr a/neu ei asiantau.
13- Bydd yr enillydd yn cael hysbysu trwy e-bost o fewn 30 diwrnod i'r dyddiad cau. Dim ond aelod o Dîm Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd Prifysgol Bangor fydd yn cysylltu â'r enillydd. Os na ellir cysylltu â'r enillydd neu os nad yw'n hawlio'r wobr o fewn 14 diwrnod ar ôl iddynt gael gwybod, mae yr Hyrwyddwr yn cadw'r hawl i dynnu'r wobr oddi ar yr enillydd a dewis enillydd arall.
14- Bydd yr hyrwyddwr yn hysbysu'r enillydd pryd a ble y caiff gasglu'r wobr.
15- Bydd y gystadleuaeth a'r telerau ac amodau hyn yn cael eu llywodraethu gan gyfraith Cymru a Lloegr a bydd unrhyw anghydfod yn ddarostyngedig i awdurdodaeth unigryw llysoedd Cymru a Lloegr.
16- Mae'r enillydd yn cytuno i'w enw/henw a'i lun/llun gael eu defnyddio mewn unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd a chyfryngau cymdeithasol, ynghyd â'u cynnig. Caiff unrhyw ddata personol am yr enillydd neu unrhyw ymgeiswyr eraill eu defnyddio'n unol â deddfwriaeth diogelu data cyfredol [y Deyrnas Unedig] ac ni chaiff ei ddatgelu i drydydd parti heb gydsyniad blaenorol y cystadleuydd.
17- Os yw rhywun yn cystadlu ystyrir ei bod nhw yn derbyn yr amodau a'r telerau yma.
18- Nid yw'r ymgyrch hyrwyddo hon yn cael ei noddi, na'i chymeradwyo na'i gweinyddu mewn unrhyw ffordd nac yn gysylltiedig â Facebook, Twitter, Instagram nac unrhyw rwydwaith cymdeithasol arall. Rydych yn rhoi eich gwybodaeth i Wasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd, Prifysgol Bangor ac nid i unrhyw barti arall. Caiff yr wybodaeth a ddarperir ei defnyddio ar y cyd â'r Polisi Preifatrwydd canlynol: https://www.bangor.ac.uk/cy/amdanom/cwcis.
19 - Mae penderfyniad Prifysgol Bangor ynghylch yr holl faterion yn ymwneud â'r gystadleuaeth, y rhai sy'n gallu cymryd rhan a'r dewis o enillwyr yn derfynol. Ni ohebir o gwbl ynglŷn â'r gystadleuaeth.

20- Bydd gan Brifysgol Bangor yr hawl, yn ôl ei ddisgresiwn llwyr ac ar unrhyw adeg, i newid neu i addasu'r telerau a'r amodau hyn, a bydd y newid hwnnw yn effeithiol ar unwaith.
21- Mae Prifysgol Bangor hefyd yn cadw'r hawl i ganslo'r gystadleuaeth os bydd amgylchiadau'n codi sydd y tu hwnt i'w rheolaeth.